Cyngor Cymuned Llaneilian (393)
Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd Gorffennaf 14, 2026 am 7h yn Neuadd Bentref Penysarn.

Presennol: Alan Williams, Patsy Allen, Dafydd Griffiths, Carol Whitaker, Gordon Hayes, Ian Evans, James Roe, Alison Williams, Carli Evans Thau (Clerc)

Ymddiheuriadau: John Griffiths, Dewi Jones, Hefina Williams, Derek Owen

1 Croeso

Bu Alan Williams gadeirio'r cyfarfod a chroesawu pawb yn bresennol, bu cydymdeimlo a Derek Owen yn dilyn profedigaeth teuluol. Bu'r clerc gadarnhau bod cerdyn cydymdeimlo wedi ei anfon ar ran y Cyngor.

2 Datgan Diddordeb

Dim o'r newydd.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cymeradwywyd y cofnodion – cynnig James Roe, eilio Carol Whitaker, unfrydol gefnogol.

4 Materion yn Codi

Ni fu materion yn codi nad oeddent wedi eu cynnwys ar yr agenda.

5 Diweddariadau

5.1 Caeau Chwarae – bu tynnu sylw at ramp oedd wedi ei adeiladu gan blant ar y tarmac ym Maes Llwyfo, cadarnhawyd bod y twll yn y glaswellt wedi ei ail-lenwi, a'r coed oedd wedi ei ddefnyddio i'w adeiladu wedi eu clirio.

Bu tynnu sylw at ddiffyg parch perchnogion cwn sydd yn gollwng eu cwn yn rhydd yn y caeau chwarae – cytyno archebu arwyddion penodol ar gyfer y giatiau. Onibai am hyn, mae'r parciau yn edrych yn wych a bu diolch i bawb ynghlwm.

5.2 Llithrfa – nodwyd siom nad oedd y cynllun llithrfa yn weithredol fyth (roedd i fod yn weithredol 15/5/2026 nes 30/9/2026). Trafodwyd talu'r swm llawn yn ol i'r sawl oedd wedi cofrestru, oherwydd diffyg gweithredu CSYM - Nid yw'r goriadau wedi eu darparu, nid yw'r postyn ar y llithrfa wedi ei osod, nid yw'r bwis cyflymder wedi eu gosod yn eu lle er diogelwch, nid yw'r gabions wedi eu newid, nid yw'r bin ger y mainc wedi ei ddiogelu ers ei symud tra yn gosod arwydd newydd, nid yw'r bin dosbarthu bagiau baw ci wedi ei ail-osod ers gosod yr arwydd mawr.

Cytuno cysylltu a CSYM i dynnu sylw na fydd rheolaeth o'r llithrfa oherwydd y materion uchod, ac y bydd disgwyl i nifer fwy ddefnyddio'r adnodd dros yr wythnosau nesaf. Os na fydd y materion a godwyd wedi cael sylw, bydd talu ad-daliadau llawn i'r sawl (17) sydd wedi cofrestru a bydd codi tal gweinyddu ar CSYM am gostau'r CC

5.3 Mynwentydd – bu tynnu sylw at ddiweddariad gan Lesley Rider ar ran Eglwys Llaneilian gydag diweddariad am y gwaith i'r adeilad. Bu tynnu sylw at gwynion am ddifrod i botiau blodau ym mynwent Bosra, mae'r Henaduriaeth yn ymwybodol. Cadarnhawyd bod cyfarfod rhithiol wedi ei drefnu gyda cynrychiolydd Undeb y Bedyddwyr pnawn Gwener 17/7.

5.4 Polisi a Chyllid – nodwyd bod angen adolygu rhai o bolisiau'r Cyngor.

5.5 Cronfa TMI – nodwyd bod nifer o brosiecau cyfalaf posib wedi eu hadnabod, bydd trafod eto unwaith bydd mwy o wybodaeth am grantiau CSYM.

5.6 Llwybrau – Nid oes ymateb gan Aurora Hood ynglyn a hyfforddiant ar gyfer tywys teithiau cerdded hyd yma.

Cafwyd ddiweddariad gan Arwel Evans am Lwybr Cadi Rondol, ond bu nodi bod y

tirfeddiwnwr wedi cwblhau gwatih sylweddol ar y safle ers i'r ebost cael ei anfon. Cytuno byddai ysgrifennu i ddiolch iddo am y gwaith hyd yma.

Trafodwyd llwybr Cadi Rondol mewn peth manylder, nodwyd bod y tirfeddianwr ar hyn o bryd yn gweithio yn yr ardal i wella a gosod traen newydd a lefelu ardaloedd eraill. Nodwyd bod y tirfeddianwr wedi cytuno ffensio'r llwybr yn y gorffennol a bod dodrefn wedi eu darparu gan CSYM i'r perwyl. Gobeithir bydd Arwel Evans yn gallu ymweld a thrafod ymhellach.

Mae disgwyl diweddariad gan Arwel Evans am y llwybr o Nebo i gyfeiriad Castell, gobeithir bod posib ail agor y llwybr ar hyd y trywydd gwreiddiol.

5.7 Pwyllgorau Allanol – cafwyd grynodeb gan Dafydd Griffiths yn dilyn cyfarfod **pwyllgor teithio llesol** bu iddo fynychu gydag Alan Williams. Nodwyd nad oedd y pwyllgor wedi cwrdd ers 2024. Cytuno cysylltu a'r swyddogion perthnasol a gofyn am gynlluniau diweddaraf y cynllun ar gyfer ardal Llaneilian ac Amlwch. Nodwyd bod y gwaith yn clymu i fewn i'r gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus a bu Dafydd Griffiths gadarnhau bod Dylan Llewelyn Jones, swyddog trafnidiaeth cynaladwy CSYM wedi cael copi o'r ddogfen yn amlinelu pryderon y Cyngor Cymuned am y gwasanaethau trafnidaieth yn y cylch.

Cadarnhawyd bu Patsy Allen ac Alan Williams fynychu Gwyl Cyhoeddi **Eisteddfod Mon Bro Parys 2027** yn Amlwch i gefnogi a stiwardio'r orymdaith drwy'r dref.

Bu Alan Williams rannu crynodeb o gyfarfod **Grwp Cadw Tir Mon** gan dynnu sylw at ymatebion i geisiadau rhyddid gwybodaeth a gyflwynwyd i Ddwr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

5.8 Bioamrywiaeth / Amgylcheddol – nodwyd nad oedd CSYM wedi bod yn torri cymaint ar ymylon y ffyrdd, a bu cydnabod bod hyn yn dda i fioamrywiaeth, yn enwedig yn ystod y tywydd sych. Nodwyd fodd bynnag bod peth sbwriel yn casglu yn y gwair hir.

Bu cydnabod adroddiad Sam Langdon, Swyddog Bioamrywiaeth Un Llais Cymru yn dilyn ei ymweliad a'r perllan ddechrau'r flwyddyn. Mae'n cynnwys nifer o syniadau ar gyfer datblygu'r ardal.

Mae'r teithiau cerdded cymunedol yn parhau, gofynnwyd i ymddiriedolwyr y neuadd drafod yn eu cyfarfod nesaf sut byddai posib parhau i gydweithio i'r dyfodol. Bu Gordon Hayes gytuno adrodd yn ol.

6 Cynllunio

Cadarnhawyd bod unrhyw ddogfennau cynllunio wedi eu hanfon i'r aelodau drwy ebost.

6.1 Ceisiadau –

6.1.1 FPL/2026/90 Glas y Dorlan, Nebo - Nodwyd er tryloywdeb bod yr ymgeisydd yn aelod o'r Cyngor. Nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Bu cydnabod yr angen am y sied. Ni fu gwrthwynebiad l'r datblygiad, a bu gofyn bod swyddogion CSYM, os am ganiatau'r cais, yn ystyried cynnwys amod i sicrhau bod y sied ynghlwm a'r ty fel 'single planning unit'

6.1.2 FPL/2026/91 Twrllachiad, Nebo - Nodwyd bod y cais yn gais oedd wedi ei ail gyflwyno, ni fu sylwadau pellach i'w hychwanegu.

6.1.3 FPL/2026/121 Tyddyn Engan, Penysarn - Nodwyd bod map y Gofrestrfa Tir yn dangos perchnogaeth mwy o dir na'r map oedd wedi ei gynnwys yn y cais cynllunio. Nid yw'r aelodau wedi gallu dod i benderfyniad heb fod digon o wybodaeth i gyfiawnhau'r angen am fynedfa newydd. Mae angen eglurhad pellach am unrhyw anghydfod a thystiolaeth bod wir angen mynedfa newydd l'r briffordd.

6.1.4 FPL/2026/133 Pant y Clociau, Llaneilian - Wrth ystyried y wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno, nid oes unrhyw dystiolaeth newydd wedi ei gyflwyno i newid meddwl yr aelodau ac felly mae'r Cyngor yn unfrydol yn parhau i wrthod y datblygiad.

6.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn –
FPL/2025/254 Hawddmor, Llaneilian – wedi ei ganiatau, nodwyd siom nad oedd CSYM wedi anfon gwybodaeth pellach oedd wedi ei dderbyn am y cais at sylw'r Cyngor Cymuned, er bod sylwadau wedi eu hanfon i fewn, ni fu cyfle i ymateb i'r wybodaeth ychwanegol yma. Cytuno byddai gofyn am gopi o adroddiad y swyddog.

6.3 Unrhyw fater cynllunio arall – cadarnhawyd bod CSYM wedi cydnabod y cwynion am coed wedi eu torri a gwaith cloddio ger Bryn Fuches. Nodwyd bod cynifer o waith tirlunio a datblygu ar dir Stad Llys Dulas a gofynnwyd os oedd angen caniatad cynllunio am y fath waith. Cytuno byddai ysgrifennu llythyr at gyfeiriad cofrestredig y cwmni yn gofyn am gyfarfod posib i drafod cynlluniau'r cwmni ar gyfer yr ardal.

7 Materion Priffyrdd

Cadarnhawyd bod drych bellach wedi ei osod ar ben Lon Lletroed, gofynnwyd am ddiweddariad am Lon Gors. Nid oedd unrhyw waith wedi ei gwblhau ar gyffordd Lon yr Ysgol hyd yma. Bu tynnu sylw at gyflwr y lon ar waelod allt Cae Dwr wrth fynd tuag at Bryn Mor.

Bu tynnu sylw at ebost gan Huw Percy am y cyfyngiadau 40mya ar yr A5025, cytuno cysylltu ag Aled Morris Jones am ddiweddariad o'r cyfarfod bu i Alun Roberts grybwyll pan fu cwrdd ag o fis diwethaf.

Nid oedd diweddariad am baentio llinellau gwyn ger Rhosfa, nid yw'r swyddog perthnasol yn ateb ei ffon, cytuno gofyn i Aled Morris Jones gydlynnu gyda'r unigolion ynghlwm.

Bu tynnu sylw at glawdd yn Stad Tanrallt sydd yn eiddo i CSYM, mae yn gordyfu ac yn atal mynediad i gefn eiddo ar Chapel St. Y clerc i gysylltu a CSYM i dynnu sylw.

Bu tynnu sylw at ordyfiant ar ymyl y palmant o'r Neuadd hyd at y Gofeb, mae yn eithaf cul mewn mannau bellach. Cytuno tynnu sylw CSYM.

8 Materion Ariannol

8.1 Taliadau - Cymeradwywyd y taliadau canlynol
£100.00 Cymdeithas Rhieni Athrawon Ysgol Penysarn (dathliadau bl6)
£200.00 Alun Foulkes (archwilaid mewnol)
£643.66 HMRC (PAYE)
£613.28 Cyflog Clerc
£258.36 Costau Clerc Ebrill-Mehefin
£1062.26 Sion Williams (torri gwair)

8.2 Ceisiadau am Arian – dim

8.3 Adroddiad Chwarterol – bu cydnabod derbyn yr adroddiad a bu diolch i'r clerc am ei baratoi.

9 Prosiectau Cyfalaf

Mae disgwl cadarnhad gan CSYM eu bod yn hapus a'r cynnigion cyn gallu dechrau ar y gwaith gwario.

10 Cofeb Rhyfel

Daw llythyr gan asiant y tirfeddianwr yn cynnig trosglwyddo'r Gofeb i'r Cyngor Cymuned yn rhad ac am ddim, dim ond bod y Cyngor yn talu y costau cyfreithiol perthnasol. Bu cytuno derbyn y cynig mewn egwyddor a gofyn am benawdau telerau a chynlluniau i gael trafod ymhellach. Cynnig Ian Evans, eilio Carol Whitaker. Nodwyd byddai angen sicrhau mynediad o amgylch y Gofeb i'w gynnal i'r dyfodol, bu gwerthfawrogi bod y tirfeddianwr yn cydnabod pwysgrwydd y Gofeb i'r gymuned.

Bu cytuno tynu'r torchau oddi ar y gofeb am y tro gan nodi eu bod yn edrych yn flinedig ac yn fler erbyn hyn. Cytuno byddai'r ddau silwet yn aros – maent yn cynrychioli'r Fyddin (Rhyfel

Byd Cyntaf) a'r Llynges (Ail Ryfel Byd), a'r enwau sydd ar y Gofeb.

11 Adolygu Polisiau

Bu adolygu'r polisiau canlynol a'u derbyn –

- Polisi Iaith Gymraeg
- Polisi Diogelu Gwybodaeth a Datganiad Preifatrwydd
- Datganiad Cyfleon Cyfartal
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Gweithrefn a Pholisi Cwyno

12 Iechyd a Diogelwch

Bu tynnu sylw at ddefnydd 'e-scooter' yn y pentref a bu nodi pryder am ddiogelwch y fath beiriannau, nid yw defnydd y fath gerbydau mewn lleoedd cyhoeddus yn gyfreithlon. Mae nifer wedi nodi pryder am ddamweiniau posib 'near miss' ac mae pryder am ddiogelwch yr unigolyn dan sylw. Y clerc i gysylltu a'r Heddlu i dynnu sylw a gofyn iddynt gadw golwg ar y sefyllfa.

13 Adroddiad Blynyddol

Bu atgoffa aelodau i anfon gwybodaeth at Alan Williams i'w gynnwys yn yr adroddiad.

14 Gohebiaeth

Cadarnhawyd bod eitemau o ohebiaeth wedi eu hanfon ir aelodau drwy ebost wrth eu derbyn.

15 Unrhyw Fater ar gyfer Agenda'r Cyfarfod Nesaf

Aelodau i gysylltu a'r clerc mewn da bryd os am gynnwys eitemau ar yr agenda.

14 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn am 7yh nos Fawrth, Medi 8, 2026

Bu'r cyfarfod orffen am 9.30yh o'r gloch

Alan Williams,
Cyngor Cymuned Llaneilian
CET07/2026